



## Cymdeithas Bêl-droed Cymru – Tynnu Lluniau a Chymryd Fideos o Blant Canllawiau

Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) yn deall bod rhieni/gwarcheidwaid efallai'n dymuno dathlu llwyddiant eu plentyn ar y cae chwarae drwy dynnu lluniau neu gymryd fideos o hyn, a gall y fideos fod yn adnodd hyfforddi defnyddiol.

Fodd bynnag, mae'n rhaid i les y plant dan sylw ddod gyntaf bob tro ac o'r herwydd, mae'n rhaid rhoi mesurau diogelu priodol a chymesur ar waith.

Mae risgiau ynghlwm â chyhoeddi gwybodaeth bersonol am blant gan y gallai arwain at allu adnabod y plentyn a'i leoliad, neu mae'n bosibl i ddelweddau fod yn destun defnydd amhriodol.

Mae'n bwysig cofio nad yw'n drosedd i unrhyw un gymryd llun neu fideo ar dir cyhoeddus, hyd yn oed os gofynnir iddynt beidio. Os yw sesiynau hyfforddi neu gemau yn digwydd ar dir preifat, perchennog y tir neu'r cyfleuster all benderfynu p'un a ydynt yn caniatáu cymryd lluniau neu fideos.

Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn argymhell dilyn **y camau cyffredinol** hyn mewn sesiynau hyfforddi a gemau i sicrhau diogelwch pob plentyn:

- Sicrhau caniatâd gan y rhiant/gwarcheidwad a'r plentyn dan sylw gan ddefnyddio'r ffurflen caniatâd berthnasol. Fe allai fod yn ddefnyddiol casglu hon ar ddechrau pob tymor.
- Lle bo'n bosibl, ni ddylid cynnwys enw plentyn mewn llun/fideo, ac yn bendant ni ddylid defnyddio cyfenw nac unrhyw wybodaeth fanwl arall am y plentyn.
- Sicrhau bod plant wedi'u gwisgo'n briodol a'u bod yn gwisgo cit diogelwch addas megis padiau coesau.
- Os oes plentyn o fewn eich clwb sydd yn y system gofal, cofiwch wneud yn siŵr nad yw ei lun yn cael ei wneud yn gyhoeddus.
- Dim ond ar y cae chwarae y dylid caniatáu cymryd lluniau. Ni ddylai lluniau/fideos gael eu cymryd mewn ystafelloedd newid, cawodydd neu doiledau.
- Os yw unigolyn sy'n cymryd lluniau/ffilmio yn peri pryder difrifol, rhowch wybod i'ch heddlu lleol a Thîm Diogelu CBDC.

### Canllawiau ar gyfer rhieni, gwarcheidwaid a phobl eraill sy'n gwyllo

- Rhoi manylion Swyddog Diogelu'r Clwb a Rheolwr Diogelu CBDC i rieni/gwarcheidwaid os ydynt yn pryderu am ddefnydd amhriodol o'r lluniau.
- Dylai'r rheiny sy'n gwyllo geisio caniatâd gan hyfforddwr/swyddog diogelu'r clwb cyn tynnu lluniau/ffilmio gêm neu sesiwn hyfforddi. Efallai y byddai'n ddefnyddiol rhoi sticer iddynt i ddangos bod caniatâd wedi'i roi.
- Dylai'r rheiny sy'n gwyllo fod yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r sefydliad mewn perthynas â thynnu lluniau a ffilmio gemau a'r mesurau diogelu y mae'n rhaid glynu atynt.

- Dylai'r rheiny sy'n gwylio lofnodi'r 'Cod Ymddygiad ar gyfer Gwylwyr' sydd ar gael drwy [www.faw.org.uk/safeguarding](http://www.faw.org.uk/safeguarding)

- Dylai hysbysiadau fod yn weledol mewn gemau neu sesiynau hyfforddi gyda'r geiriau canlynol:

"Yn unol ag argymhellion Cymdeithas Bêl-droed Cymru, mae *enw'r clwb* yn gofyn i unrhyw un sy'n dymuno cymryd fideos neu luniau 'zoom' neu o agos gofrestru eu manylion â phersonél y clwb cyn gwneud hynny. Os oes gan rieni unrhyw bryderon penodol am eu plentyn o ran cymryd lluniau neu fideos, dylent roi gwybod i'r trefnwyr."

Mae'r hyrwyddwr yn arfer yr hawl i wrthod mynediad i unrhyw berson nad ydynt yn gallu cydymffurfio ag amodau'r hyrwyddwr.

#### Canllawiau wrth ddefnyddio ffotograffwyr proffesiynol

- Dylid gwneud ffotograffwyr yn ymwybodol o ddisgwyliadau'r sefydliad mewn perthynas â thynnu lluniau a ffilmio gemau a'r mesurau diogelu y mae'n rhaid glynu atynt.
- Ni ddylid gadael ffotograffwyr ar eu pen eu hunain â phlant na'u gadael i gymryd rhan mewn sesiwn un-i-un â phlentyn.
- Dylid rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid ymlaen llaw am bresenoldeb ffotograffydd proffesiynol, ynghyd â chanllawiau o ran sut bydd y delweddau'n cael eu defnyddio.
- Dylid rhoi gwybodaeth i rieni/gwarcheidwaid o ran sut bydd y delweddau'n cael eu storio a'u cadw.
- Os oes unrhyw bryderon am ymddygiad amhriodol, dylid rhoi gwybod i Swyddog Diogelu'r Clwb yn y lle cyntaf.
- Dylai'r ffotograffydd gael achrediad priodol cyn ymgymryd â'i ddyletswyddau.